

Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â hawl plant a phobl ifanc i chwarae mewn lleoliadau gwaith chwarae lle na fydd niwed corfforol nac emosiynol yn digwydd iddyn nhw, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol. Mae'n bosib i argyfwng neu ddamwain ddigwydd, ac fe ddylech chi wybod sut i ymateb i'r rhain yn effeithiol. Fel gweithiwr chwarae fe ddylech chi helpu i ddiogelu lles y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r lleoliad gwaith chwarae.

Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:

1. sicrhau fod plant, pobl ifanc ac eraill yn iach a diogel
2. cefnogi lles plant a phobl ifanc

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Argymhellir y dylai staff fod wedi derbyn lefel briodol o hyfforddiant diogelu plant a bod yn gyfarwydd gyda pholisïau a gweithdrefnau eu mudiad o ran ymdrin â sefyllfaoedd lle amheuir fod camdriniaeth yn digwydd, a sut i ddatgelu hynny.

Mae'r safon ar gyfer staff nad ydyn nhw'n llwyr gyfrifol am y lleoliad gwaith chwarae ond sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu. **

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Sicrhau bod plant, pobl ifanc ac eraill yn iach a diogel

1. adnabod unrhyw **berygion**
2. liniaru'r **perygion** neu ofyn cyngor gan bobl **eraill** pan rydych chi'n ansicr sut i ymdrin â pherygl
3. gwirio fod y tŷ bach a'r mannau ymolchi yn lân a bod y cyfarpar priodol ar gael, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
4. cael gwared â gwastraff, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
5. cefnogi dewisiadau plant a phobl ifanc pan maen nhw'n gyfrifol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
6. rheoli, defnyddio, cael gwared ar neu storio pob deunydd peryglus yn unol â gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol
7. dilyn polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad o ran lles a diogelwch plant a phobl ifanc wrth iddyn nhw gyrraedd a gadael
8. cadw cofnodion iechyd a diogelwch yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. adnabod ac ymateb i achosion o argyfwng yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad ac swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau
10. galluogi plant a phobl ifanc i adnabod **perygion** a rhoi gwybod i eraill

Cefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc

11. cyfrannu at gwrdd ag **anghenion** plant a phobl ifanc fel modd o gefnogi eu lles
12. cefnogi bwyta'n iach yn eich lleoliad gwaith chwarae yn unol a chanllawiau'r llywodraeth
13. gofalu fod dŵr yfed ar gael i blant a phobl ifanc
14. gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac **eraill** i adnabod unrhyw ofynion diwylliannol neu ofal penodol
15. annog plant a phobl ifanc i ofalu amdany'n nhw eu hunain, yn unol â'u dymuniadau, **anghenion** a camau datblygiad.
16. ymateb i sefyllfaoedd heriol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
17. sicrhau fod unrhyw **wybodaeth** benodol ynghylch **anghenion** plant a phobl ifanc yn cael eu rhannu ag **eraill**

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Sicrhau bod plant, pobl ifanc ac eraill yn iach a diogel

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion at eich gwaith chi
2. y mathau o **berygion** all godi mewn **agweddau o'r lleoliad gwaith chwarae**
3. pryd i lliniaru'r pryderon neu i dderbyn cyngor gan **eraill** os oes ansicrwydd ynghylch sut i ymdrin a pherygl
4. sut a phryd i leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r **perygion** hyn, ar y cyd ag **eraill**, ond gan gadw elfen o her
5. polisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad a sut i'w dilyn, un unol a'ch swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau
6. y gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sydd ohonyn nhw o ran iechyd a diogelwch, a sut y dylai rhain gysylltu â pholisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad
7. y mathau o ddeunydd peryglus a sut i ymdrin â nhw yn unol â gofynion cyfreithiol a rheolaethol
8. sut i alluogi plant a phobl ifanc i adnabod **perygion** a pha mor bwysig ydy hi iddyn nhw hysbysu rhywun amdanyn nhw
9. arwyddion o anafiadau, salwch ac alergeddau allai effeithio ar blant a phobl ifanc a sut mae eu hadnabod pan maen nhw'n digwydd
10. y mathau o argyfwng all godi mewn lleoliad gwaith chwarae a sut i ymateb
11. swyddogaeth y person cymorth cyntaf yn eich sefydliad a sut i gysylltu â nhw

Cefnogi lles plant a phobl ifanc

12. y ffactorau i'w hystyried wrth gyfrannu at **anghenion** plant a phobl ifanc i gefnogi eu lles
13. sut i gefnogi bwyta'n iach yn eich lleoliad gwaith chwarae yn unol â chanllawiau'r llywodraeth
14. sut i wneud yn siŵr fod dŵr yfed ar gael i blant a phobl ifanc a pham bod hyn yn bwysig
15. pam ei bod hi'n bwysig gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac eraill i adnabod unrhyw anghenion diwylliannol neu ofal penodol
16. pam ei bod hi'n bwysig i annog plant a phobl ifanc i ofalu amdanyn nhw eu hunain
17. sut i ystyried dewisiadau, **anghenion** a datblygiad y plentyn neu'r person ifanc
18. sut i gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu hyder a hunan-hyder a pham bod gwneud hynny'n bwysig
19. beth all fod yn sefyllfa heriol
20. pwysigrwydd ymateb i sefyllfaoedd heriol yn unol â pholisïau a

-
- gweithdrefnau'ch sefydliad
21. sut i gefnogi **gwybodaeth** am **anghenion** plant a phobl ifanc a
gwybod gyda phwy i rannu hynny

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Peryglon

1. corfforol
2. emosiynol
3. ymddygiad
4. amgylcheddol

Eraill

1. rhieni a / neu ofalwyr
2. staff
3. gweithwyr proffesiynol eraill

Anghenion

1. diwylliannol
2. gofal personol
3. meddygol
4. corfforol
5. emosiynol

Gwybodaeth

1. cefndir
2. anghenion dietegol
3. alergeddau
4. gofynion gofal personol
5. trefniadau cyrraedd a gadael
6. cofnodion y sefydliad

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Peryglon

1. corfforol
2. emosiynol
3. ymddygiad
4. amgylcheddol

Agweddau o'r lleoliad gwaith chwarae

1. y gofod chwarae
2. ymddygiad
3. ymddygiad wrth chwarae
4. offer
5. defnyddiau
6. adnoddau

Eraill

1. rhieni a / neu ofalwyr
2. staff
3. gweithwyr proffesiynol eraill

Anghenion

1. diwylliannol
2. gofal personol
3. meddygol
4. corfforol
5. emosiynol

Gwybodaeth

1. cefndir
2. anghenion dietegol
3. alergeddau
4. gofynion gofal personol
5. trefniadau cyrraedd a gadael
6. cofnodion y sefydliad

Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chwarae a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfoll a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.
7. Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae ac hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.
8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwysu'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwyllo'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

Geirfa

Sefyllfaoedd Heriol

Sefyllfaoedd nad ydy'r gweithiwr chwarae o reidrwydd yn teimlo'n gyffyrddus â nhw. Fe allan nhw gynnwys enghreifftiau fel gwrthdaro neu ymddygiad heriol gan riant neu ofalwr; plentyn ymosodol, defnyddio neu ddiffyg defnyddio'r tŷ bach neu ymddygiad rhywiol.

Deunyddiau peryglus

Fe allai'r rhain gynnwys eitemau fel carthion, nodwyddau, offer atal cenhedlu, gwydr, defnydd fflamadwy neu lanhau, hylif corfforol, meddyginiaethau neu eitemau wedi torri.

Dulliau Ymyrraeth

Gwahanol ddulliau mae modd i'r gweithiwr chwarae eu ddefnyddio yn y lleoliad gwaith chwarae. Gall y rhain amrywio o ddim ymyrraeth o gwbl i fathau penodol o ymyrraeth, ac fe allan nhw gynnwys: aros i gael gwahoddiad i chwarae; galluogi i'r plant chwarae heb ymyrraeth; galluogi i blant a phobl ifanc archwilio'u gwerthoedd eu hunain; gadael i'r plant a'r bobl ifanc wella eu perfformiad eu hunain, gadael i'r plant a'r bobl ifanc benderfynu ar gynnwys a diben y chwarae; gadael i'r plant a'r bobl ifanc benderfynu pam eu bod yn chwarae; gadael i'r plant a'r bobl ifanc benderfynu beth sy'n ymddygiad priodol; a dim ond trefnu pan fod ar y plant a'r bobl ifanc eisiau i chi wneud hynny

Ffrâm chwarae

Ffin materol neu ffigyrol i gadw'r chwarae'n gyfan

Man chwarae

Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr.

Lleoliad gwaith chwarae

Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

Staff

Y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant.

SKAPW53

Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y lleoliad gwaith chwarae



Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2016
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAPW35
Galwedigaethau perthnasol	Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, Lles a Datblygiad Plentyn, Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol, Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd
Cyfes/Set	Gwaith Chwarae
Geiriau Allweddol	Cyfrannu, iechyd a diogelwch; lles; plant a phobl ifanc; chwarae